

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 13 Mawrth 2018 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Mei Gwilym	
Iestyn Harris	Eifion Williams	
Sarah Riley	Nerys John	
Casi Roberts	Gruff John	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Agorwyd y Cyfarfod misol gan y Cadeirydd Daniel Llewelyn Williams drwy groesawu'r aelodau. Derbyniwyd Ymddiheuriadau gan Mair Bebb Jones, Aled Emyr a Peter Simpson. Cyfeiriwyd at brofedigaeth y Cynghorydd Aled Emyr ac anfon ato gydymdeimlad y Cyngor. Anfonwyd Cydymdeimlad at deulu'r diweddar Bet. Cafwyd ennyd o ddistawrwydd.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
2.1	Croesawyd y Cynghorydd Sir i'r cyfarfod ac estynnwyd gwahoddiad iddo gyfarch y Cyngor. Dywedodd bod grŵp y difiblator yn cyfarfod nos fory am chwech. Bydd pop up siop dros yr Haf a gobeithir casglu digon o arian i brynu dau; bydd angen trafodaeth ynglŷn â lleoli'r ddau. Bydd y Cynghorydd Eifion Williams yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y grŵp.	
2.2	Dywedodd ei fod wedi cyfarfod ynglŷn â rhoi Cynllun Gwydnwch Cymunedol at ei gilydd. Mae gryn dipyn o waith i hyn a diolchodd i'r Cynghorydd Eifion Williams am ei waith hyd yma ar y cynllun.	
2.3	Dywedodd ei fod wedi gwneud cais am Bin halen ar gyfer Ger y Nant ond nad oedd wedi derbyn ymateb hyd yma gan fod y swyddog wedi bod i ffwrdd o'i waith.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog ariannol yr adroddiad ar gyfer Mis Chwefror. Derbyniwyd y gwariant. Cynigwyd ac eiliwyd hwy fel rhai cywir.	SWYDDOG ARIANNOL
4.2	Trafodwyd cyflog y Gofalwraig. Rhoddwyd eglurhad gan aelodau'r Is-bwyllgor bod arian gwyliau yn daladwy sydd wedi ei addasu oherwydd bod rhai diwrnodau gwyliau wedi ei derbyn. Penderfynwyd bod angen trafod hefo'r Gofalwraig y Cytundeb Waith a'r Swydd ddisgrifiad sydd wedi eu cyflwyno eisoes. Mae angen i hyn ddigwydd yn fuan. Cytunodd y Cyngor i dalu'r arian ar gyfer	SWYDDOG ARIANNOL

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	gwyliau nad oedd wedi ei gymryd o fewn y ddwy flynedd diwethaf. Y swm yw £914..	
4.3	Mae anfoneb marcio'r maes parcio wedi ei dderbyn. Cytunodd y Cyngor i dalu'r anfoneb.	SWYDDOG ARIANNOL
4.4	Mae anfoneb flynyddol gwastraff y Fynwent wedi ei dderbyn £448. Penderfynwyd talu'r anfoneb ond monitro defnydd y bin ynghyd a defnydd y bin compost ac oes bydd angen newid maint y bin gwastraff i un llai.	SWYDDOG ARIANNOL
4.5	Bydd aelodaeth y SLCC angen ei adnewyddu'r mis hwn, rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Ariannol i dalu hwn.	SWYDDOG ARIANNOL
4.6	Mae anfoneb aelodaeth Unllais Cymru wedi ei dderbyn £381 - rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Ariannol i'w dalu.	SWYDDOG ARIANNOL
4.7	Mae contract gwasanaethu'r Cloc angen ei adnewyddu, pris am dair blynedd yw £542. Rhoddwyd hawl i dalu.	SWYDDOG ARIANNOL
4.8	Bydd angen archwilio'r cyfrifon cyn eu bod yn cael eu danfon at yr archwiliwr mewnol. Gan fod y Cynghorydd Sarah Riley yn dechrau eu habsenoldeb mamolaeth bydd y Cynghorydd Mei Gwilym yn ymwneud a'r gwaith gyda'r Cynghorydd Iestyn Harris.	MG/IH
4.9	Dim ond rhai mantolau cyfrifon cymdeithasau sydd wedi ei derbyn hyd yma ar ôl iddynt dderbyn cymorth ariannol gan y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei fonitro a bydd y mater yn cael ei roi ar agenda mis Medi.	CLERC
4.10	Derbyniwyd diolchiadau oddi wrth Clwb pêl droed Ieuentid y Felinheli a Gŵyl y Felin.	
4.11	Derbyniwyd argymhellion Panel Annibynnol Cymru a'r Gydabyddiaeth Ariannol. Gweler Atodiad A. Hefyd cyfeiriwyd at Benderfyniad 44: bod rhaid i gynghorau tref a chymuned sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i bob un o'u haelodau am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffon , technoleg gwybodaeth , defnyddiau traul ac yn y blaen. Mae opsiwn gan y Cynghorwyr i dderbyn y gydnabyddiaeth hon neu i beidio, os yw cynghorydd ddim am ei dderbyn yna bydd angen iddo/iddi anfon at y Clerc i nodi hyn. Y Clerc i anfon at y Cynghorwyr.	CLERC
4.12	Trafodwyd telerau talu i'r Capel. Y Clerc i sicrhau nifer yr achlysuron defnyddio'r capel ers Mis Mawrth 2016. Bydd angen i'r Capel anfon anfoneb at y Cyngor mor fuan â phosib er mwyn iddynt dderbyn taliad o fewn y flwyddyn ariannol. Y Clerc i gysylltu â'r Cynghorydd Mair Bebb Jones.	CLERC
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror gyda man newidiadau sydd i'w hanfon ar y Cynghorwyr wedi'r cyfarfod.	CLERC
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD	
6.1	Mae amcangyfrif wedi ei dderbyn oddi wrth adeiladwr ar gyfer creu porth i'r Neuadd. Y Pris yw oddeutu £3,000. Byddai'r porth yn cael ei wneud o flociau. Yn y cyfamser bydd angen gosod ffens fel "windblock" . Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar y 27 Mawrth am 7 yn y neuadd ar gyfer edrych ar y cynllun gwydnwch Cymunedol; bydd modd hefyd i ystyried y porth. Y Clerc i wneud ymholiadau os bydd angen hawl cynllunio. Gwaith o ail leoli larymau mwg heb ei gwblhau - y Clerc i gysylltu â Snowdonia Fire Protection i ofyn ba bryd fydd y gwaith yn cael ei wneud.	CLERC
7.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
7.1	Cafwyd eglurhad ynglŷn â phris Menter Fachwen. Mae potiau blodau'r cloc yn derbyn gwasanaeth gan Menter Fachwen pob tymor am bris o £100. Mae angen sicrhau faint o botiau sydd o amgylch y cloc. "dathliadau" cofio 100 mlynedd – edrych i mewn i wneud prosiect hefo'r ysgol – Iestyn i gysylltu	
7.2	Trafodwyd cael digwyddiad ar gyfer dathlu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd 1af, gobeithir cael digwyddiad lle byddai'r ysgol gymuned yn cymryd rhan. Y Cynghorydd Iestyn Harris i gysylltu â'r ysgol. Gofynnwyd hefyd a oedd y torchau wedi eu clirio oddi wrth y gofeb - roedd y Cynghorydd Iestyn Harris yn barod i'w clirio os nad oeddynt wedi cael eu symud.	IH
8.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
8.1	C18/0129/20/CT- torri a thocio coed o fewn ardal cadwraeth – 6 Aber Cottages, Y Felinheli LL56 4JY – DIM GWRTHWYNEBIAD	
9.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
9.1	Cafwyd adroddiad bod blodau plastig yn cael eu rhoi yn y bin compost. Mae Sul y Blodau yn syrthio o fewn mis Mawrth eleni ac oherwydd hyn mae angen gofyn i'r contractwr gwair i dorri gwair y fynwent mis o flaen y cytundeb. Fe gysylltwyd ag ef o'r cyfarfod a chafwyd cadarnhau bydd hyn yn cael ei wneud dydd Gwener yr wythnos hon.	CLERC
10.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
10.1	Cafwyd eglurhad gan y Cynghorydd Nerys John	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	bod ffens o amgylch y llwnc dwll oherwydd bod y safle wedi ei hau.	
10.2	Roedd y Cynghorydd Nerys John ac Anwen Lyn wedi cael ymweliad safle gyda Robin Perkins Swyddog Lon Las Cyngor Gwynedd i benderfynu lle i blannu'r coed maent wedi eu derbyn. Bydd Robin Perkins yn sicrhau symud y coed i'r safle a gobeithir bydd y plannu yn digwydd bore Sadwrn am 10. Mare Anwen Lyn hefydd wedi cael pecyn o hadau blodau gwyllt ar gyfer eu hau.	
10.4	Cadarnhawyd bod gwaith ail farcio y maes parcio wedi ei gwblhau a bod perchnogion y Sied yn ddiolchgar.	
10.3	Bydd angen cael planhigion lafant newydd ar gyfer safle Moriah. Y Clerc a'r Cadeirydd i weithredu ar y mater yma.	CLERC/DW
11.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
11.1	Cafwyd sylw gan y Cynghorydd Casi Roberts bod tir lithriad wedi bod i'r lon las yn Seilo. Y Clerc i anfon at Robin Perkins.	
11.2	Mae sylwadau wedi dod i law'r Cyngor bod pobl yn rhoi bagiau baw ci mewn biniau ailgylchu trigolion ger Llwybr Afon Heulyn. Y Clerc i drafod y mater a Chyngor Gwynedd.	CLERC
11.3	Mae sylwadau wedi dod i law oddi wrth Cwmni Tregwylan bod llwybr o Hen Gei Llechi i Garddfon mewn cyflwr drwg a bod pyllau dwr ar hyd y wyneb. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd mai cyfrifoldeb y tirlfeddiannwr yw ac nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i gynnig cymorth ariannol oherwydd nid yw wedi cyllido ar gyfer hyn.	CLERC
11.4	Cerrig yr Afon. Mae'r ffens wedi disgyn i mewn i'r afon a mae angen ei adnewyddu. Eifion am siarad efo brawd tenant y tir ynghylch y ffordd ymlaen efo cael contractwr i wneud y gwaith ayyb	EW
12.0	ADRODDIAD PRIFYRDD	
12.1	Trafodwyd cynlluniau arfaethedig gwaharddiadau parcio mewn sawl lleoliad o fewn y pentref. Penderfynwyd ar yr isod. Ger yr ysgol – dim gwrthwynebiad Ger y bont yn Cei Llechi – dim gwrthwynebiad. Brynffynnon - Y Cyngor yn datgan pryder effaith cyflwyno gwaharddiad yn y lleoliad hwn oherwydd bod pwysau lleoliadau parcio yn yr ardal hon yn uchel yn barod a byddai gosod	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>llinellau dwbl yn yr ardal yma yn gwaethygu'r sefyllfa. Cwestiynir addaswydd y safle ar gyfer canolfan dydd ar gyfer pobl fregus yn enwedig bod angen cerbyd "Long Wheel Base" i'w cludo yno. Mae'r Cyngor yn bryderus ynglŷn â mynedfa i'r safle gan gerbydau argyfwng. Byddai'r Cyngor yn hoffi fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynllun.</p> <p>Hen Gei Llechi - Gwrthwynebu oherwydd byddai llinellau melyn y disodli'r cerbydau presennol i ardaloedd llai addas. Hefyd byddai cyflymder y traffig yn cynyddu. Cafwyd llythyr gan un o drigolion Tai'r Felin yn mynegi pryder am y cais am linellau melyn yn yr ardal hon.</p>	
13.0	PROSIECTAU	
	<p>Mae 63 ymateb wedi ei dderbyn i greu grwpiau hel sbwriel. Mae achlysur wedi ei drefnu ar gyfer Dydd Sul gan Anwen Lyn. Rhoddwyd caniatâd i'r Cynghorydd Sarah Riley i ddefnyddio gwefan penodedig ar gyfer cysylltu â phawb drwy tects i hysbysu'r achlysur a hefyd i drefnu cyfarfod i sefydlu hybiau ar gyfer yr amryw ardaloedd o fewn y pentref.</p> <p>Cynghorydd Sarah Riley wedi gofyn i'r Cyngor Sir am offer 'High Viz' 'Pickers' a Hoops' ond dim wedi derbyn ymateb eto.</p>	SR
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	dim	
15.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
15.1	<p>Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 27 Mawrth 2018 am 8 yn y Neuadd. Bagiau tywod. Y Cyngor am orfod cael adnoddau bagiau tywod yn barod ar gyfer argyfwng llifogydd a'i cadw tu ôl i'r Neuadd, bydd angen fag o dywod hefyd we mwyn llenwi'r bagiau tywod fel bo'r gofyn - oddeutu £200 wedi ei neilltuo r gyfer hyn. Bydd y mater yn cael ei drafod yn yr is-bwyllgor.</p>	DW/EW
16.0	GWEFAN	
	<p>Trafodwyd offer talu am logi'r neuadd. Penderfynwyd defnyddio'r sustem stripe. Mae'n angenrheidiol bod yr ofalwraig sydd yn gyfrifol am dderbyn "bookings" y neuadd yn cael hyfforddiant ar y sustem cyn bod y drefn yn dod yn fyw. Is-bwyllgor Cyflogaeth i drefnu siarad â'r Gofalwraig. Cynghorydd Casi Roberts i drefnu dangos y sustem.</p> <p>Trafodwyd hefyd defnyddio storfa gwmwl ar gyfer dogfennau'r Cyngor. Y Cynghorydd Mei</p>	IH/SR/CR/MG

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Gwilym am wneud cyflwyniad fidio er mwyn hyfforddi'r cynghorwyr sut i'w ddefnyddio.	
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.1	Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2017 - i'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill - Cynghorydd Pete Simpson i adrodd yn ôl.	
17.2	Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd-cynigion draft - cafwyd eglurhad gan Iestyn Harris gyda gwybodaeth bellach gan y Cynghorydd Sir. Penderfynwyd bod y sefyllfa bresennol yn effeithiol a bod y Cyngor Cymuned yn gweithio'n dda gyda'r Cynghorydd Sir; teimlir y byddai'r newid arfaethedig yn effeithio yn andwyol ar hyn.	CLERC
17.3	General Data Protection Regulation - eglurwyd y mater gan y Cynghorydd Iestyn Harris. Roedd y rheoliadau yn ymestyn y ddeddfwriaeth ac yn effeithio cwmnïau mawr oherwydd eu bod hwy yn cadw gwybodaeth bersonol. Mae angen adnabod gwybodaeth ar unigolion ac mae angen eu dileu os yw cais yn dod i law. Y Cynghorydd Iestyn Harris yn edrych ar y mater o angen cael Swyddog i'r perwyl hyn.	IH
17.4	Trafodwyd os oes angen ai lenwi'r biniau halen. Y Clerc i dderbyn gwybodaeth oddi wrth y Cynghorwyr am gyflwr y biniau ac yna i sicrhau cyflenwad fel bo angen gan fod tywydd garw wedi ei addo eto.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 22:30	
Llofnod:		Dyddiad: